OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 849 (Cy.126) (C.34)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011

Gwnaed - - - - 17 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 18(3) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw' r Gorchymyn hwn yw the Gorchymyn Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.

Y diwrnod penodedig

2. 18 Mawrth 2011 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau'r Mesur, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

17 Mawrth 2011

(**1**) 2010 mccc 2.

YR ATODLEN Erthygl 2

DARPARIAETHAU MESUR CODI FFIOEDD AM WASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL (CYMRU) 2010 A DDAW I RYM AR 18 MAWRTH 2011

Darpariaeth	*Pwnc*
Adran 1	Pŵer cyffredinol i godi ffioedd am wasanaethau gofal
Adran 2	Uchafswm y ffioedd
Adran 3	Personau a gwasanaethau na chaniateir gosod ffioedd ynglŷn â hwy
Adran 4	Gwahoddiad i ofyn am asesiad modd
Adran 5	Dyletswydd i gynnal asesiad modd
Adran 6	Amodau sy'n arwain at y ddyletswydd i gynnal asesiad modd
Adran 7	Penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu
Adran 8	Effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gallu i dalu
Adran 9	Awdurdod yn disodli penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu
Adran 10	Darparu gwybodaeth am ffioedd
Adran 11	Adolygu penderfyniadau ar godi ffioedd
Adran 12	Taliadau uniongyrchol
Adran 13	Gwasanaethau y caniateir codi ffioedd amdanynt
Adran 14	Diwygiadau i Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983
Adran 15	Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970
Adran 16	Diwygio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001